



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Adolygiad o weithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

---

Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a  
Gorffen

# Adolygiad o weithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

## Cynulleidfa

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; prifysgolion, colegau addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru; dysgwyr a sefydliadau sy'n cynrychioli eu buddiannau; sefydliadau sy'n cynrychioli sefydliadau addysgol yng Nghymru; adrannau Llywodraeth Cymru; sefydliadau sy'n cynrychioli cyflogwyr; cwmnïau yn y sector preifat yng Nghymru; sefydliadau sy'n gweithio i hybu'r defnydd o'r Gymraeg a rhanddeiliaid a phartneriaid eraill sy'n ymwneud â'r maes.

## Trosolwg

Ym mis Awst 2016 cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ei bod yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu gweithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac i wneud argymhellion ar y ffordd ymlaen. Byddai'r adolygiad yn llywio penderfyniadau polisi a chyllido ynghylch y Coleg i'r dyfodol. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau ac argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen.

## Camau i'w cymryd

Dim – er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Is-adran y Gymraeg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: [Cymraeg@llyw.cymru](mailto:Cymraeg@llyw.cymru)

## Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn [llyw.cymru](http://llyw.cymru)

## Dogfennau cysylltiedig

*Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* (2010)

*Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (2017) Strategaeth y Gymraeg

# Cynnwys

<b>Rhagair</b>	<b>2</b>
<b>Crynodeb o'r argymhellion</b>	<b>3</b>
<b>Rhan 1: Cyflwyniad a chyd-destun polisi</b>	<b>7</b>
<b>Rhan 2: Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol – y sefyllfa gyfredol</b>	<b>9</b>
Cyllideb	9
Targedau a chyrhaeddiad	10
Cynnydd yn erbyn targedau	10
<b>Rhan 3: Dull gweithredu'r adolygiad</b>	<b>12</b>
<b>Rhan 4: Canfyddiadau ac argymhellion</b>	<b>13</b>
4.1: Sylwadau cyffredinol	13
4.2: Strwythur y Coleg Cymraeg Cenedlaethol	14
Sylwadau cyffredinol	14
Llywodraethiant	14
4.3: Gweithgareddau penodol	16
Cyswllt gydag ysgolion	16
Ysgoloriaethau	18
Y Dystysgrif Sgiliau Iaith	20
4.4 Dangosyddion a thargedau	21
4.5: Y berthynas rhwng y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a sefydliadau addysg uwch	22
Sylwadau cyffredinol	22
Newid o'r Cynllun Staffio Academaidd i ariannu pynciol	23
Canghennau	24
<b>Rhan 5: Ymestyn cylch gwaith y Coleg i gynnwys y sector ôl-16</b>	<b>26</b>
Cefndir a thargedau	26
Canfyddiadau	27
<b>Rhan 6: Cyllido'r Coleg</b>	<b>31</b>
Sylwadau cyffredinol	31
Gwerth am arian a chynaliadwyedd	31
Cyllido'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol at y dyfodol	32
<b>Rhan 7: Rôl y Coleg mewn perthynas â datblygiadau polisi diweddar</b>	<b>34</b>
<b>Atodiad 1: Cylch Gorchwyl y Grŵp</b>	<b>35</b>
<b>Atodiad 2: Aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen</b>	<b>36</b>
<b>Atodiad 3: Sefydliadau a gyflwynodd dystiolaeth ar lafar</b>	<b>37</b>
<b>Atodiad 4: Ymatebion ysgrifenedig a dderbyniwyd</b>	<b>39</b>

## Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad hwn ar waith a rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'n ganlyniad chwe mis o waith a chyfarfodydd ar hyd a lled Cymru. Rwy'n ddiolchgar dros ben i aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, sef Heledd Bebb, Rhun Dafydd, Bethan Guilfoyle, Barry Liles, Noel Lloyd a Mari Lloyd-Williams am eu gwaith caled a meddylgar. Mae'r adroddiad wedi elwa o gael cyfraniadau gan aelodau mor brofiadol gydag arbenigedd amrywiol iawn. Diolch hefyd i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol am eu cydweithrediad ac i bob unigolyn a sefydliad a gyfrannodd dystiolaeth. Yn olaf, diolch i'r swyddogion yn Llywodraeth Cymru a weithiodd ar yr adroddiad am eu cefnogaeth broffesiynol.

Gobeithio y bydd yr adroddiad yn ddefnyddiol i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes wrth iddynt ystyried dyfodol addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y sector ôl-orfodol. Gobeithio, hefyd, y bydd o gymorth i gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y sectorau addysg uwch, addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith yn y blynyddoedd i ddod.



Delyth Evans

Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen

## Crynodeb o'r argymhellion

**Argymhelliad 1:** Dylai'r Llywodraeth ymestyn rôl y Coleg i fod yn gorff strategol cenedlaethol cydnabyddedig ar gyfer datblygu'r Gymraeg ar draws y sectorau addysg uwch, addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith.

**Argymhelliad 2:** Wrth i gyfrifoldebau'r Coleg ymestyn i'r sector ôl-16, dylai'r Coleg newid cyfansoddiad Bwrdd y Cyfarwyddwyr er mwyn adlewyrchu ei gyfrifoldebau newydd, gan sicrhau:

- bod unrhyw newid yng nghyfansoddiad Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn adlewyrchu ei gyfrifoldebau newydd;
- bod gan aelodaeth y Bwrdd lefel uchel o arbenigedd o'r sectorau addysg uwch, addysg bellach, a dysgu seiliedig ar waith, ynghyd â phrofiad cyfoes a dwfn ohonynt;
- bod aelodaeth y Bwrdd yn gytbwys ar draws y sectorau;
- bod gan rai o aelodau'r Bwrdd brofiad a gwybodaeth o anghenion y byd gwaith;
- nad yw aelodaeth y Bwrdd yn fwy nag y mae ar hyn o bryd, a;
- bod y dull o benodi aelodau i'r Bwrdd yn osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau neu ganfyddiad o wrthdaro buddiannau.

**Argymhelliad 3:** Dylai'r Coleg ystyried symleiddio llywodraethiant yn gyffredinol i'w wneud mor dryloyw â phosib. Dylid ystyried nifer y pwyllgorau a grwpiau sydd yn cyfrannu at lywodraethiant y Coleg, eu strwythur a'u haelodaeth, ar sail effeithiolrwydd a thryloywder.

**Argymhelliad 4:** Dylai'r Coleg ystyried a oes lle i leihau biwrocratiaeth a phrosesau mewnol, yn enwedig ar yr ochr fonitro, heb amharu ar effeithiolrwydd y gweithgareddau.

**Argymhelliad 5:** I'r graddau y bydd angen ailgyfeirio adnoddau'r Coleg yn y cyfnod nesaf, dylai'r Coleg ganolbwyntio ar ddiogelu a datblygu'r gweithgareddau hynny sydd yn fwyaf hanfodol i gyflawni Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 6:** Dylai'r Coleg ganolbwyntio ei negeseuon marchnata ar hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil yn y gweithle, yn hytrach na marchnata'r Coleg fel corff ar wahân. Wrth wneud hyn dylai'r Coleg:

- ganolbwyntio ar gefnogi ysgolion trwy ddatblygu deunyddiau marchnata at ddefnydd athrawon, disgyblion a rhieni;
- cefnogi ysgolion cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a chyfrwng Saesneg;

- ailgyfeirio ei waith hyrwyddo i gyrraedd disgyblion iau, hynny yw disgyblion blwyddyn 9 a 10, cyn iddynt ddechrau gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u haddysg ôl-16, a;
- cydlynu ei waith marchnata yn agos ag adrannau marchnata'r sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach unigol er mwyn sicrhau y trosglwyddir negeseuon clir a chyson i ddisgyblion ysgol ynglŷn â gwerth y Gymraeg.

**Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â'r Coleg, roi mwy o bwysau ar ysgolion ac awdurdodau lleol i gyfrannu at Strategaeth y Gymraeg trwy gyfathrebu negeseuon clir a chyson ynglŷn â gwerth y Gymraeg fel sgil yn y gweithle a phwysigrwydd dilyniant i addysg uwch ac addysg ôl-16.

**Argymhelliad 8:** Dylai'r Coleg addasu'r cynllun ysgoloriaethau drwy:

- ystyried diddymu'r Brif Ysgoloriaeth ar sail gwerth am arian oherwydd y tebygrwydd nad oes angen cymhelliant ariannol ar fyfyrwyr sy'n dewis astudio o leiaf 80 credyd y flwyddyn trwy gyfrwng y Gymraeg;
- canolbwyntio ar ddatblygu'r cynllun Ysgoloriaethau Cymhelliant/Hyblyg er mwyn targedu'n fwy effeithiol y myfyrwyr hynny na fyddai'n dewis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg heb gymhelliant ariannol, a;
- sicrhau ysgoloriaethau ar gyfer pynciau sy'n diwallu anghenion cyflogwyr, er mwyn cryfhau'r cysylltiad rhwng yr iaith Gymraeg a'r economi yn unol â pholisi iaith Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 9:** Dylai'r Coleg barhau i gynnig Ysgoloriaethau Ymchwil oherwydd gwerth y cynllun i faes ymchwil cyfrwng Cymraeg, i ysgolheictod ac i gefnogi darlithwyr y dyfodol.

**Argymhelliad 10:** Dylai'r Coleg ystyried sut y gall ddatblygu'r Dystysgrif Sgiliau Iaith trwy gyflwyno gwahanol lefelau o gyrhaeddiad, i'w gwneud yn fwy hygyrch i fwy o fyfyrwyr a phrentisiaid.

**Argymhelliad 11:** Dylid ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnig y Dystysgrif Sgiliau Iaith i fyfyrwyr sydd yn astudio y tu allan i Gymru, er mwyn iddynt gadw cysylltiad â'r iaith Gymraeg ac er mwyn tynnu sylw at gyfleoedd cyflogadwyedd/astudio pellach yng Nghymru (e.e. profiad gwaith, graddau Meistr).

**Argymhelliad 12:** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i osod targedau ar sail 5 a 40 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer y Coleg sydd yn adlewyrchu anghenion Strategaeth Iaith Gymraeg y Llywodraeth. Dylai'r Coleg barhau i gofnodi nifer y myfyrwyr sy'n cwblhau 80 credyd y flwyddyn.

**Argymhelliad 13:** Dylai'r Coleg drafod â'r sefydliadau unigol sut y gallant ddyfnhau'r profiadau a gynigir dan y dangosydd 5 credyd er mwyn sicrhau bod myfyrwyr sy'n cael eu cofnodi dan y mesur yn defnyddio'r Gymraeg i ryw raddau.

**Argymhelliad 14:** Dylai Llywodraeth Cymru a'r Coleg ddatblygu dangosydd ychwanegol ar sail y canran o ddisgyblion ysgol sy'n medru'r Gymraeg sydd yn mynd ymlaen i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg mewn addysg uwch neu addysg bellach.

**Argymhelliad 15:** Dylai'r Coleg weithio'n fwy rhagweithiol wrth osod blaenoriaethau ac wrth wneud penderfyniadau strategol ynglŷn â'r gefnogaeth a roddir i wahanol bynciau.

**Argymhelliad 16:** Wrth ddatblygu'r cynllun grantiau pynciol, dylai'r Coleg:

- weithio mewn ffordd agored a thryloyw, er mwyn sicrhau cefnogaeth y sector a meithrin hyder yn y broses grantiau pynciol;
- sicrhau bod ei gynlluniau yn eglur ac yn cynnwys amserlen glir ar gyfer newidiadau sy'n effeithio ar y sefydliadau;
- monitro effaith y cynllun pynciol newydd yn ofalus a gwneud asesiad llawn o effaith a llwyddiant y cynllun ar ôl tair blynedd;
- wrth gynnig grantiau pynciol dylai'r Coleg ystyried y nifer o leoliadau sydd yn darparu cyrsiau o fewn yr un pwnc, a lleihau'r nifer os yn briodol i sicrhau cynaliadwyedd y ddarpariaeth, a;
- sicrhau grantiau pynciol ar gyfer pynciau/meysydd lle mae galw gan gyflogwyr am sgiliau dwyieithog.

**Argymhelliad 17:** Dylai'r sefydliadau unigol wneud pob ymdrech i sicrhau gwerth gorau am arian trwy fuddsoddi cyllideb ac adnoddau eu hunain i gyfrannu at y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg er mwyn ychwanegu at yr hyn a gefnogir gan y Coleg.

**Argymhelliad 18:** Dylai'r Coleg ddatblygu a chysoni gweithgareddau craidd y canghennau a diogelu'r hyblygrwydd i ymateb i amodau'r sefydliadau unigol.

**Argymhelliad 19:** Dylai'r Coleg weithio'n agos â'r sefydliadau addysg uwch i sicrhau bod y canghennau yn cael mewnbwn a dylanwad digonol ar lefel strategol o fewn y sefydliadau.

**Argymhelliad 20:** Dylid ymestyn cylch gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynnwys y sector ôl-16.

**Argymhelliad 21:** I ddatblygu'r gweithgaredd o fewn y sector ôl-16 dylai'r Coleg:

- sefydlu bwrdd cynllunio arbenigol dan adain y Coleg, yn cynnwys cynrychiolaeth o'r colegau addysg bellach, y sector dysgu seiliedig ar waith a Llywodraeth Cymru, i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y sector ôl-16;
- dylai'r bwrdd cynllunio flaenoriaethu tri maes penodol; cefnogi staff presennol y colegau a darparwyr hyfforddiant i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg er mwyn dysgu'n ddwyieithog, datblygu adnoddau dysgu Cyfrwng Cymraeg, a hyrwyddo'r cyfleoedd a'r manteision i ddysgwyr ym meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, a;
- creu uned gynllunio ôl-16 i gefnogi gwaith y Bwrdd Cynllunio ac i ymateb i'r cyfrifoldebau newydd.

**Argymhelliad 22:** Mewn partneriaeth, dylai Llywodraeth Cymru, y Coleg a rhanddeiliaid eraill ystyried sut i ddatblygu gallu'r sector galwedigaethol i asesu trwy gyfrwng y Gymraeg, yn fewnol o fewn sefydliadau, ac yn allanol gan y cyrff dyfarnu.

**Argymhelliad 23:** Dylai'r Coleg ystyried pob cyfle i adolygu costau, yn enwedig costau canolog i sicrhau gwerth am arian.

**Argymhelliad 24:** Dylai'r Coleg barhau i gael ei ariannu yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Dylid ailystyried yr opsiynau cyllido o fewn pedair blynedd wrth i swyddogaeth a chyfrifoldebau'r corff newydd ôl-orfodol ddod yn fwy eglur.

**Argymhelliad 25:** Dylai'r Coleg drafod gyda Llywodraeth Cymru yr angen am unrhyw gyllid ychwanegol i ymateb i'w gyfrifoldebau newydd. Dylai hyn fod yn seiliedig ar gynllun gweithredu, ond ni welir angen am gynnydd yn y costau canolog yn y tymor byr.



## Rhan 1: Cyflwyniad a chyd-destun polisi

- 1.1 Yn ystod y blynyddoedd diweddar, rhoddwyd sylw cynyddol gan Lywodraeth Cymru i'r angen i ddatblygu addysg uwch ac addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg. Sefydlodd Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru (2010) y weledigaeth o gael system addysg a hyfforddiant oedd yn sicrhau cynnydd yn nifer y bobl sy'n rhugl yn y Gymraeg ac yn gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn y gymuned ac yn y gweithle. O fewn y Strategaeth, roedd amcan penodol i wella'r broses o gynllunio llwybrau dysgu ar gyfer dilyniant cyfrwng Cymraeg i mewn i addysg uwch mewn pynciau academaidd a meysydd galwedigaethol a flaenoriaethir. Atgyfnerthwyd yr amcan hwn mewn datganiad polisi Iaith Fyw: Iaith Byw - Bwrw Mlaen 2014-2017 a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016 ac a oedd yn cryfhau'r berthynas rhwng yr iaith a'r economi.
- 1.2 Ers ei sefydlu yn 2011, bu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg) yn cyfrannu at nod strategol Llywodraeth Cymru trwy ddatblygu a hyrwyddo addysg uwch cyfrwng Cymraeg ledled Cymru.
- 1.3 Cyhoeddwyd adroddiad annibynnol o drefniadau cyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr (adroddiad yr Athro Diamond) ym mis Medi 2016. Roedd yr adroddiad yn cynnwys dau argymhelliad penodol oedd yn berthnasol i'r Coleg:
  - *Llywodraeth Cymru i weithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), sefydliadau addysg uwch a rhanddeiliaid eraill fel sefydliadau addysg bellach, ysgolion, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, cyflogwyr a sefydliadau gwirfoddol a chymunedol cenedlaethol er mwyn sicrhau'r effaith uchaf posibl a'r gwerth mwyaf o fuddsoddiad cyhoeddus mewn, a chymorth ar gyfer, addysg uwch cyfrwng Cymraeg.*
  - *I gefnogi model cyllido cynaliadwy, dylai buddsoddiad blynyddol gan CCAUC yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'i raglen ysgoloriaeth gael ei gadw ar lefel y flwyddyn academaidd 2016/17 (£5.8 miliwn) o leiaf.*
- 1.4 Yn ei ymateb i Adroddiad Diamond, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn derbyn yr argymhelliad cyntaf, ac y byddai'n ystyried yr ail.
- 1.5 Cyhoeddwyd adroddiad yr Athro Ellen Hazelkorn 'Tuag at 2030 - Fframwaith ar gyfer Datblygu System Addysg Ôl-orfodol o'r Radd Flaenaf i Gymru,' ym mis Mawrth 2016. Argymhellodd yr adroddiad y dylid sefydlu un awdurdod strategol i fod yn gyfrifol am oruchwylio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Yn ei hymateb i'r adroddiad (Ionawr 2017), datganodd Llywodraeth Cymru y

byddai'n ymgynghori ar sefydlu un awdurdod yn unol â'r model a gynigwyd gan yr Athro Hazelkorn.

- 1.6 O fewn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, Symud Cymru Ymlaen 2016-2021, ceir ymrwymiad i weithio tuag at sicrhau un miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mewn ymateb i'r amcan hwn, cyhoeddwyd Strategaeth newydd – 'Cymraeg 2050 – miliwn o siaradwyr' ar 11 Gorffennaf.<sup>1</sup> O fewn 'Cymraeg 2050 - Rhaglen Waith 2017-21' ceir nod benodol: *“datblygu darpariaeth addysg ôl-orfodol sy'n cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, ni waeth pa mor rhugl eu Cymraeg, i ddatblygu sgiliau yn yr iaith i'w defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle.”*
- 1.7 Mae'r Rhaglen Lywodraethu hefyd yn cynnwys ymrwymiad penodol i archwilio'r posibilrwydd o ehangu cylch gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynnwys addysg bellach.
- 1.8 Ym mis Awst 2016 cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y byddai Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei sefydlu i adolygu rôl a gweithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (gweler Atodiad 1: Cylch Gorchwyl y Grŵp Gorchwyl a Gorffen). Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet i'r Grŵp ystyried strwythur presennol y Coleg, opsiynau cyllido, a pherthynas y Coleg â'r sefydliadau addysg uwch. Yn ogystal, gofynnwyd i'r Grŵp ystyried a ddylid ymestyn cylch gwaith y Coleg i gynnwys y sector ôl-16.
- 1.9 Fel rhan o'i ymateb i Adroddiad Diamond, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai adolygiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn sail i benderfyniadau polisi a chyllideb i'r dyfodol mewn perthynas â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
- 1.10 Ar 12 Mehefin, tua diwedd cyfnod yr adolygiad yma, cyhoeddwyd adroddiad gan Estyn: 'Addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach'. Un o brif ganfyddiadau'r adroddiad oedd nad oes digon o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn parhau â'u hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog mewn colegau addysg bellach. Cynigwyd cyfres o argymhellion i'r Llywodraeth ac i golegau addysg bellach ar sut i wella'r ddarpariaeth.
- 1.11 Mewn ymateb i'r adroddiad, derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhellion oedd wedi eu cyfeirio ati yn llawn neu mewn egwyddor. Nododd fod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen hwn yn ystyried rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol o fewn addysg bellach yn y dyfodol. Mae trafodaethau'r Grŵp a'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn adlewyrch canfyddiadau adroddiad Estyn.

---

<sup>1</sup> <http://gov.wales/docs/dcells/publications/170711-welsh-language-strategy-cy.pdf>

## Rhan 2: Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol – y sefyllfa gyfredol

- 2.1 Sefydlwyd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2011, yn unol â blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru, er mwyn cynllunio, datblygu, cydlynu a hyrwyddo addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Seiliwyd strwythur a chyllideb y Coleg yn helaeth ar adroddiad y Grŵp Cynllunio a gadeiriwyd gan yr Athro Robin Williams (2008-09).
- 2.2 Trwy gynlluniau strategol ac academiaidd mae'r Coleg yn gweithio gyda sefydliadau addysg uwch i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ledled Cymru, gan adeiladu ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg oedd eisoes yn bodoli a datblygu capasiti o fewn sefydliadau lle nad oedd darpariaeth flaenorol.

### Cyllideb

- 2.3 Yn ei adroddiad, argymhellodd y Grŵp Cynllunio y dylai'r Coleg dderbyn cyllid rheolaidd, yn debyg i'r sefydliadau addysg uwch, er mwyn caniatáu rhywfaint o sicrwydd ar gyfer cynllunio at y dyfodol. Byddai hyn yn galluogi'r Coleg i gefnogi sefydliadau addysg uwch, yn hytrach na chystadlu â hwy am gyllid. Roedd y model cyllido yn seiliedig ar gynnydd graddol yn y gyllideb gyda'r cyllid yn cael ei ddarparu drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Yn ogystal â'r grant craidd, byddai cyllideb ychwanegol drwy CCAUC yn cefnogi ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg.

**Tabl 1: Cyfanswm cyllid a ddarparwyd i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol rhwng 2010/11 a 2016/17**

Blwyddyn Academaidd	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Grant craidd (£m)	£1.281	£4.104	£5.304	£6.496	£7.644	£8.480	£5.436
Ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg		£0.130	£0.230	£0.330	£0.330	£0.330	£0.330
<b>Cyfanswm</b>	<b>£1.281</b>	<b>£4.234</b>	<b>£5.534</b>	<b>£6.826</b>	<b>£7.974</b>	<b>£8.100</b>	<b>£5.766</b>

*Ffynhonnell: CCAUC*

- 2.4 Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-18, Is-adran y Gymraeg o fewn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ariannu'r Coleg. Mae £5.4 miliwn wedi ei ddyrannu i gefnogi gweithgareddau'r Coleg yn ystod y flwyddyn bresennol, gyda £0.330m ychwanegol yn cael ei ddarparu drwy CCAUC i gefnogi'r Cynllun Ysgoloriaeth cyfrwng Cymraeg. Bwriad y newid hwn i'r cyfrifoldebau cyllido oedd rhoi sefydlogrwydd i'r Coleg yn ystod cyfnod yr adolygiad.

## Targedau a chyrrhaeddiad

- 2.5 Yn ei adroddiad awgrymodd y Grŵp Cynllunio dargedau posibl ar gyfer y sefydliad newydd, a chawsant eu mabwysiadu gan CCAUC fel modd o fesur cynnydd. Cynigwyd y targedau canlynol yn adroddiad yr Athro Williams:

*Cynnydd o 50% dros bum mlynedd (hynny yw, o'r 3,760 yn 2006/07 i tua 5,600) yn y nifer o fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio o leiaf ran o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg mewn sefydliadau addysg uwch, o gael yr ymrwymiad, egni a chyllid priodol. Mae hefyd yn ystyried bod cynnydd o 100% (hynny yw, i tua 7,500) ar ôl deng mlynedd yn nod hynod o heriol, ond teilwng. Dylid, serch hynny, gynnal adolygiad llawn o gynnydd ar ôl pum mlynedd i helpu i osod targedau a chyllid at y dyfodol a dylai'r adolygiad hwn ymdrin hefyd â strwythur a gweithrediad y Coleg. Yn y tymor hir, nod realistig fyddai cael darpariaeth yn y Gymraeg, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, rywle yng Nghymru, yn y mwyafrif o bynciau.*

- 2.6 O fewn y llythyr grant blynyddol oddi wrth CCAUC, mae'r targed isod wedi ei gynnwys ynghyd â'r targed ychwanegol ar gyfer y rhai sy'n astudio o leiaf 40 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg:

*Nifer y myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sy'n gwneud o leiaf 5 credyd o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, y flwyddyn, yn codi o 4,335 yn 2011/12 i 5,600 yn 2015/16, gan gynnwys cynnydd o 2,269 i 3,030 yn nifer y rhai sy'n astudio o leiaf 40 credyd y flwyddyn.*

## Cynnydd yn erbyn targedau

**Tabl 2: Nifer o fyfyrwyr yn astudio o leiaf 5 credyd yn y Gymraeg**

	20010/11	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16
<b>Prifysgolion Cymru yn unig</b>	4,560	4,321	4,865	4,914	5,306	5,565
<b>Prifysgolion a cholegau addysg bellach</b>		4,335	4,882	4,932	5,399	5,658 <sup>2</sup>

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ar gyfer Prifysgolion. Data addysg bellach wedi ei ddarparu'n uniongyrchol i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.*

<sup>2</sup> Mae'r ffigur yma yn is na'r cofnod swyddogol gan HESA. Mae cwestiwn wedi codi ynghylch un darn penodol o ddata gan un Prifysgol – ac felly mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi tynnu'r ffigurau hynny oddi wrth y data. Fel arall y cyfanswm byddai 6,702

2.7 Mae'r data yn erbyn y targed 5 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg yn dangos cynnydd cyson dros y cyfnod, gyda'r niferoedd ar gyfer 2015/16 yn uwch na'r targed gwreiddiol o 5,600.

**Tabl 3: Nifer o fyfyrwyr yn astudio o leiaf 40 credyd yn y Gymraeg**

	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16
<b>Prifysgolion Cymru a cholegau addysg bellach</b>	2,023	2,255	2,343	2,427	2,558	2,837

*Ffynhonnell: Cofnod Myfyriwr HESA ar gyfer Prifysgolion. Data addysg bellach wedi ei ddarparu'n uniongyrchol i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol*

2.8 Bu cynnydd cyson dros y cyfnod diweddar yn y niferoedd o fyfyrwyr sydd yn astudio o leiaf 40 credyd yn y Gymraeg. Serch hynny, mae'r nifer yn 2015/16, sef 2,837 o fyfyrwyr, yn is na'r targed a osodwyd, sef 3,030.

2.9 Mae'n werth nodi, er bod y targedau uchod yn darparu dull o fesur perfformiad a llwyddiant y Coleg, mae gweithgareddau'r Coleg yn llawer ehangach. Mae datblygu amgylchedd cadarnhaol ar gyfer astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, a datblygu adnoddau a gallu prifysgolion i ddarparu cyrsiau yn y Gymraeg, wedi bod yn allweddol i gyflawni'r cynnydd yn nifer y myfyrwyr.

2.10 Mae'r gweithgareddau ychwanegol yn cynnwys: datblygu isadeiledd technegol, yn benodol drwy lwyfan adnoddau ac e-ddysgu'r Coleg, Y Porth; darparu rhaglenni hyfforddiant a llwybr i gymhwyso fel addysgwyr cydnabyddedig trwy gyfrwng y Gymraeg i staff academiaidd; datblygu cymuned o ymchwilwyr ac arbenigwyr sy'n gweithio yn y Gymraeg; a chyhoeddi Gwerddon, e-gyfnodolyn academiaidd cyfrwng Cymraeg.

## Rhan 3: Dull gweithredu'r adolygiad

- 3.1 Gweler Atodiad 2 am aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.
- 3.2 Cychwynnodd y Grŵp ar ei waith ym mis Tachwedd 2016. Cafwyd saith cyfarfod mewn lleoliadau ledled Cymru i dderbyn tystiolaeth gan randdeiliaid, gan gynnwys y grwpiau canlynol:
  - Prifysgolion
  - Colegau Addysg Bellach
  - Y Sector Dysgu Seiliedig ar Waith
  - Myfyrwyr
  - Sefydliadau sydd yn cynrychioli'r sectorau
  - Sefydliadau sydd â diddordeb yng ngwaith y Coleg.
- 3.3 Derbyniwyd tystiolaeth ar lafar gan 19 o sefydliadau neu gyrff (gweler atodiad 3).
- 3.4 Yn ogystal, gofynnodd y Grŵp am dystiolaeth drwy wefan Llywodraeth Cymru.
- 3.5 Ymddangosodd erthygl am yr adolygiad yng nghylchlythyr Dysg, yn gwahodd cyfraniadau.
- 3.6 Derbyniwyd ymatebion ysgrifenedig gan 30 o sefydliadau ac unigolion (gweler Atodiad 4).
- 3.7 Yn ogystal, cafodd y Grŵp gyfle i adolygu adroddiadau ar gefndir sefydlu'r Coleg, gwerthusiad o'r Coleg a gwblhawyd gan CCAUC yn 2014, dogfennau polisi a strategaethau Llywodraeth Cymru, a dogfennau a gwybodaeth a baratowyd gan y Coleg.

## Rhan 4: Canfyddiadau ac argymhellion

### 4.1: Sylwadau cyffredinol

- 4.1.1 Ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gorff effeithiol a llwyddiannus, sy'n gwneud cyfraniad allweddol i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg uwch. Ar draws y dystiolaeth a dderbyniwyd yn ystod yr adolygiad, roedd y darlun cyffredinol o weithgareddau presennol y Coleg, ei effeithiolrwydd, a'i allu i gydweithio gyda'r sefydliadau unigol, yn un cadarnhaol.
- 4.1.2 Pan sefydlwyd y Coleg yn 2011, roedd ganddo dasg anodd fel corff newydd i ennill ffydd a chydweithrediad y sefydliadau addysg uwch unigol. Llwyddodd i ddatblygu ffyrdd effeithiol o gydweithio a model o weithredu sydd wedi ennill cefnogaeth gan y sefydliadau unigol. Mae'r llwyddiant hwn, a hynny'n ystod cyfnod cymharol fyr o weithredu, i'w gymeradwyo.
- 4.1.3 Derbyniwyd tystiolaeth gan sefydliadau addysg uwch yn nodi'r cynnydd a wnaed yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg dros y pum mlynedd diwethaf ar draws ystod eang o bynciau. Priodolwyd y twf hwn i waith y Coleg. Dywedwyd na fyddai'r cynnydd wedi digwydd oni bai am waith y Coleg.
- 4.1.4 Wrth edrych i'r dyfodol, mae'r Grŵp o'r farn bod angen i'r Coleg barhau â'r gwaith o gefnogi addysg Gymraeg o fewn addysg uwch. Mae seiliau cadarn wedi eu gosod o fewn y gwahanol brifysgolion, ond ni fydd y cynnydd pwysig a wnaed yn gynaliadwy heb gefnogaeth barhaus.
- 4.1.5 Ar yr un pryd, mae galw pendant am ddatblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y sector ôl-16. Ni dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth oedd yn anghytuno â hyn. Ar ôl ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd a'r gwahanol opsiynau gweithredol posib, casgliad y Grŵp yw y dylai cyfrifoldebau'r Coleg ymestyn i gynnwys y sector ôl-16. Oherwydd nad oes gan y Coleg yr arbenigedd mewnol ar hyn o bryd i ymgymryd â'r gwaith yn ei gyfanrwydd, bydd angen creu strwythur newydd pwrpasol o fewn y Coleg i sicrhau bod y profiad a'r arbenigedd angenrheidiol ar gael i arwain y gwaith cynllunio cychwynnol.
- 4.1.6 Wrth i'r Coleg ymestyn ei gylch gwaith, mae'n hanfodol bod ansawdd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Rhaid i brofiad y myfyriwr fod yn gwbl ganolog, ac mae'n hollbwysig bod safon yr hyn a ddarperir o'r radd flaenaf. Mae Cynllun Strategol y Coleg 2017/18 yn pwysleisio'r angen i sicrhau safon uchel, ac mae hyn i'w groesawu. Mae'n hanfodol bod yr un sylw yn llywio gwaith y Coleg wrth gynllunio ar gyfer y sector ôl-16. Bydd angen i'r Coleg weithio'n agos â'r sefydliadau unigol i fonitro a diogelu safon y ddarpariaeth.

- 4.1.7 Ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, ac yng nghyd-destun amcan Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae'n amserol bod y Coleg ddatblygu ei rôl yn y blynyddoedd nesaf. Dylai'r Llywodraeth ymestyn rôl y Coleg i fod yn gorff strategol cenedlaethol cydnabyddedig ar gyfer datblygu'r Gymraeg ar draws y sectorau addysg uwch, addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith.
- 4.1.8 Gydag arweiniad cadarn, yr arbenigedd angenrheidiol, a chefnogaeth y sefydliadau unigol, cred y Grŵp bod y Coleg mewn sefyllfa gref i wneud cyfraniad allweddol at gyflawni Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru yn y sector addysg ôl-orfodol yn ystod y cyfnod nesaf.

## 4.2: Strwythur y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

### Sylwadau cyffredinol

- 4.2.1 Yn ystod y cyfnod cyntaf o weithredu, yn gyffredinol, mae strwythur y Coleg wedi bod yn addas ar gyfer y dasg o ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn addysg uwch.
- 4.2.2 Cyfeiriwyd sawl gwaith yn y dystiolaeth a dderbyniwyd at safon uchel ac ymroddiad staff y Coleg.
- 4.2.3 Cafwyd rhywfaint o dystiolaeth bod rhai o brosesau'r Coleg yn rhy ddwys o ran staff a biwrocratiaeth ganolog, a bod gofynion monitro rhai o'r gweithgareddau yn rhy drwm. Mae lle i'r Coleg ystyried a ellir symleiddio peth o'r gwaith gweinyddol hwn, gan gynnwys ar yr ochr fonitro, heb amharu ar effeithiolrwydd y gweithgareddau.

### Llywodraethiant

- 4.2.4 Mae strwythur llywodraethiant presennol y Coleg fel a ganlyn:
- **Y Llys**, sy'n cynnwys deg aelod sefydliadol (addysg uwch) a deg aelod wedi eu henwebu gan randdeiliaid.
  - **Bwrdd y Cyfarwyddwyr**, sy'n cynnwys Cadeirydd annibynnol, chwe aelod wedi eu henwebu gan sefydliadau addysg uwch, pedwar cyfarwyddwr annibynnol, un aelod sy'n cynrychioli staff academiaidd y Coleg, ac un enwebiad gan Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru.
  - **Pwyllgor Penodiadau**, sy'n gyfrifol am y broses o benodi'r Cadeirydd a chyfarwyddwyr. Mae gan y pwyllgor hwn dri aelod annibynnol.



- 4.2.5 Neges gyson a ddaeth trwy'r dystiolaeth a dderbyniwyd oedd y posibilrwydd o wrthdaro buddiannau ar Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg, neu ganfyddiad o wrthdaro. Gan fod cynrychiolaeth sylweddol o'r sector addysg uwch ar y Bwrdd, mae perygl y gallai canfyddiad godi o wrthdaro buddiannau; hynny yw rhwng buddiannau'r sefydliadau unigol a buddiannau'r Coleg. Er nad oedd tystiolaeth bod hyn wedi bod yn broblem weithredol, mae cyfansoddiad presennol y Bwrdd yn agored i'r perygl hwnnw, a bydd angen lleihau'r risg hon yn y dyfodol.
- 4.2.6 Os yw Llywodraeth Cymru yn derbyn argymhellion y Grŵp i ymestyn cylch gorchwyl y Coleg, bydd angen newid cyfansoddiad Bwrdd y Cyfarwyddwyr beth bynnag er mwyn adlewyrchu cyfrifoldebau newydd y Coleg. Dylid sicrhau bod gan aelodau'r Bwrdd arbenigedd cytbwys ar lefel uchel ar draws y sectorau addysg uwch, addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith, a phrofiad cyfoes o'r meysydd hynny. Wrth ystyried pwrpas craidd y Coleg, sef sicrhau gweithlu ar gyfer y dyfodol, dylai fod gan rhai o aelodau'r bwrdd brofiad a gwybodaeth o anghenion y byd gwaith hefyd.
- 4.2.7 Ni ddylai aelodaeth y bwrdd fod yn fwy o faint nag y mae ar hyn o bryd.
- 4.2.8 Rhaid pwysleisio, wrth gwrs, nad cynrychiolwyr yw aelodau'r Bwrdd ond aelodau sy'n gweithredu er budd y Coleg. Argymhellwn, felly, fod y dull o benodi aelodau o'r bwrdd yn gyson â'r egwyddor hon, i leihau'r perygl o ganfyddiad o wrthdaro buddiannau (gweler 4.25).

**Argymhelliad 1:** Dylai'r Llywodraeth ymestyn rôl y Coleg i fod yn gorff strategol cenedlaethol cydnabyddedig ar gyfer datblygu'r Gymraeg ar draws y sectorau addysg uwch, addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith.

**Argymhelliad 2:** Wrth i gyfrifoldebau'r Coleg ymestyn i'r sector ôl-16, dylai'r Coleg newid cyfansoddiad Bwrdd y Cyfarwyddwyr er mwyn adlewyrchu ei gyfrifoldebau newydd, gan sicrhau:

- bod unrhyw newid yng nghyfansoddiad Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn adlewyrchu ei gyfrifoldebau newydd;
- bod gan aelodaeth y Bwrdd lefel uchel o arbenigedd o'r sectorau addysg uwch, addysg bellach, a dysgu seiliedig ar waith, ynghyd â phrofiad cyfoes a dwfn ohonynt;
- bod aelodaeth y Bwrdd yn gytbwys ar draws y sectorau;
- bod gan rai o aelodau'r Bwrdd brofiad a gwybodaeth o anghenion y byd gwaith;
- nad yw aelodaeth y Bwrdd yn fwy nag y mae ar hyn o bryd, a;
- bod y dull o benodi aelodau i'r Bwrdd yn osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau neu ganfyddiad o wrthdaro buddiannau.

**Argymhelliad 3:** Dylai'r Coleg ystyried symleiddio llywodraethiant yn gyffredinol i'w wneud mor dryloyw â phosib. Dylid ystyried nifer y pwyllgorau a grwpiau sydd yn cyfrannu at lywodraethiant y Coleg, eu strwythur a'u haelodaeth, ar sail effeithiolrwydd a thryloywder.

**Argymhelliad 4:** Dylai'r Coleg ystyried a oes lle i leihau biwrocratiaeth a phrosesau mewnol, yn enwedig ar yr ochr fonitro, heb amharu ar effeithiolrwydd y gweithgareddau.

### **4.3: Gweithgareddau penodol**

- 4.3.1 Oherwydd gofynion penodol y cylch gorchwyl a'r angen i ffocysu ar y prif dasgau, nid oedd yn bosib edrych yn fanwl ar bob un o weithgareddau'r Coleg. Casglwn, yn gyffredinol, fod gweithgareddau'r Coleg yn effeithiol ac yn addas at eu pwrpas. I'r graddau y bydd angen ail-gyfeirio adnoddau'r Coleg yn y cyfnod nesaf, dylai'r Coleg ganolbwyntio ar ddiogelu a datblygu'r gweithgareddau hynny sydd fwyaf hanfodol i gyflawni Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru.
- 4.3.2 Talwn sylw isod i weithgareddau lle derbyniwyd tystiolaeth gyson ynglŷn â'r angen am newid pwyslais neu ddatblygiad pellach; sef cyswllt gydag ysgolion, ysgoloriaethau, a'r Dystysgrif Sgiliau Iaith.

### **Cyswllt gydag ysgolion**

- 4.3.3 Mae gwaith cyswllt gydag ysgolion y Coleg yn bwysig dros ben a bydd y gwaith hwn yn dod yn fwy canolog fyth wrth iddo ymestyn ei rôl yn ystod y cyfnod nesaf.
- 4.3.4 Hyd yn hyn, mae'r Coleg wedi canolbwyntio ei sylw ar yr ochr gyflenwi, i sicrhau bod y ddarpariaeth angenrheidiol ar gael yn y sefydliadau er mwyn i ddarpar fyfyrwyr allu manteisio arnynt. Bu'r Coleg yn gwneud gwaith marchnata ar lefel ysgolion ac o fewn prifysgolion, yn ceisio lledaenu'r neges ynglŷn â phwysigrwydd dilyniant i mewn i addysg uwch, ond ni flaenoriaethwyd y gweithgaredd hwn yn y cyfnod cyntaf.
- 4.3.5 Canfu'r Grŵp bod rhai anawsterau yn nhrefniadau cyswllt gydag ysgolion presennol y Coleg.
- 4.3.6 Cafwyd peth tystiolaeth yn cyfeirio at yr enw 'Coleg Cymraeg Cenedlaethol' a'r posibilrwydd y gall fod yn gamarweiniol. Mae'r negeseuon a drosglwyddir i ddisgyblion yn ddryslyd ar adegau oherwydd camddealltwriaeth ynglŷn â rôl a swyddogaeth y Coleg. Mae'n glir bod rhai disgyblion (a myfyrwyr) yn meddwl bod y Coleg yn goleg ar wahân, yn hytrach na'n gorff datblygu/hyrwyddo. Gellid ystyried rhoi enw arall ar y

- Coleg, enw a fyddai'n adlewyrchu ei swyddogaethau'n fwy cywir. Er bod y Grŵp yn gweld gwerth newid o'r math yn y tymor hir, nid yw'n argymhell newid yr enw ar hyn o bryd. Yn hytrach, dylai gwaith cyswllt a marchnata'r Coleg ganolbwyntio ar drosglwyddo'r neges o werth y Gymraeg fel sgil yn hytrach na marchnata brand y Coleg ei hun.
- 4.3.7 Nid oes sicrwydd bod negeseuon marchnata'r Coleg bob amser yn llwyddo i gwrdd ag anghenion disgyblion chweched ddsbarth. Mae'r Coleg yn ofalus i osgoi'r sefyllfa o hyrwyddo un sefydliad ar draul un arall, ond gall hyn greu anhawster pan fod disgyblion blwyddyn 12 ac 13 yn gofyn am wybodaeth benodol am leoliadau gwahanol bynciau a ddarperir trwy'r Gymraeg. O ganlyniad, mae cwestiwn ynglŷn â phriodoldeb gwaith marchnata'r Coleg i'r grŵp oedran hwn.
- 4.3.8 Mae'r prifysgolion unigol yn gwneud eu gwaith marchnata eu hunain yn yr ysgolion er mwyn denu myfyrwyr, felly mae rhywfaint o ddyblygu'n anochel rhwng gweithgareddau marchnata'r Coleg a'r sefydliadau addysg uwch unigol.
- 4.3.9 Nid yw'n ymarferol i'r Coleg ymgymryd â'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg mewn ysgolion ar ei ben ei hun. Byddai'n amhosib i'r Coleg ymweld â phob ysgol, a dylai'r ysgolion eu hunain gymryd mwy o gyfrifoldeb dros y gwaith hyrwyddo o fewn y dosbarth.
- 4.3.10 Dylai'r Coleg ganolbwyntio ar gefnogi ysgolion trwy ddatblygu deunyddiau marchnata at ddefnydd athrawon, disgyblion a rhieni. Dylai'r Coleg weithio'n agos gydag ysgolion ac awdurdodau lleol i sicrhau bod y wybodaeth briodol yn cyrraedd disgyblion a'u rhieni, a hynny ar yr oedran mwyaf addas ac ar ffurf hygyrch, er mwyn eu helpu i wneud y dewisiadau gorau ar gyfer eu dyfodol.
- 4.3.11 Mae'r Grŵp o'r farn y dylai'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg ymestyn i bob ysgol uwchradd sy'n cynnig gwersi cyfrwng Cymraeg, yn cynnwys ysgolion dwyieithog ac ysgolion cyfrwng Saesneg.
- 4.3.12 Yn y cyfnod nesaf, mae'r Grŵp yn argymhell y dylai'r Coleg gynyddu ei waith cyswllt gydag ysgolion gan ganolbwyntio ar ddatblygu negeseuon a deunyddiau ar gyfer disgyblion iau; hynny yw disgyblion blwyddyn 9 a 10 - cyn iddynt ddechrau gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u haddysg ôl-16. Dylai'r Coleg ganolbwyntio ar ddatblygu negeseuon mwy pwrpasol ynglŷn â gwerth y Gymraeg fel sgil yn y gweithle ac, os yn briodol, fel mantais gymdeithasol a diwylliannol. Dylai'r Coleg osgoi marchnata ei hun a dyblygu gwaith y prifysgolion a'r colegau addysg bellach wrth iddynt farchnata cyrsiau a sefydliadau unigol ymysg disgyblion hŷn.

4.3.13 Ar yr un pryd, dylai'r Coleg gydlynu ei waith marchnata yn agos ag adrannau marchnata'r sefydliadau unigol er mwyn sicrhau negeseuon clir a chyson i ddisgyblion ysgol ynglŷn â gwerth y Gymraeg.

4.3.14 Mae'n hanfodol bod yr ysgolion hefyd yn gwneud eu rhan gan weithio mewn partneriaeth agos â'r Coleg i bwysleisio gwerth y Gymraeg fel sgil yn y gweithle, er mwyn cyfrannu at Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 5:** I'r graddau y bydd angen ailgyfeirio adnoddau'r Coleg yn y cyfnod nesaf, dylai'r Coleg ganolbwyntio ar ddiogelu a datblygu'r gweithgareddau hynny sydd yn fwyaf hanfodol i gyflawni Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 6:** Dylai'r Coleg ganolbwyntio ei negeseuon marchnata ar hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil yn y gweithle, yn hytrach na marchnata'r Coleg fel corff ar wahân. Wrth wneud hyn dylai'r Coleg:

- ganolbwyntio ar gefnogi ysgolion trwy ddatblygu deunyddiau marchnata at ddefnydd athrawon, disgyblion a rhieni;
- cefnogi ysgolion cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a chyfrwng Saesneg;
- ailgyfeirio ei waith hyrwyddo i gyrraedd disgyblion iau, hynny yw disgyblion blwyddyn 9 a 10, cyn iddynt ddechrau gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u haddysg ôl-16, a;
- cydlynu ei waith marchnata yn agos ag adrannau marchnata'r sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach unigol er mwyn sicrhau y trosglwyddir negeseuon clir a chyson i ddisgyblion ysgol ynglŷn â gwerth y Gymraeg.

**Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â'r Coleg, roi mwy o bwysau ar ysgolion ac awdurdodau lleol i gyfrannu at Strategaeth y Gymraeg trwy gyfathrebu negeseuon clir a chyson ynglŷn â gwerth y Gymraeg fel sgil yn y gweithle a phwysigrwydd dilyniant i addysg uwch ac addysg ôl-16.

## Ysgoloriaethau

4.3.15 Prif arf ariannol y Coleg i ddylanwadu ar ddewisiadau myfyrwyr yw'r ysgoloriaethau. Maent yn cynnwys:

- **Y Brif Ysgoloriaeth;** i fyfyrwyr sy'n astudio o leiaf 80 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg (hyd at 35 y flwyddyn / £3,000 dros dair blynedd).
- **Ysgoloriaeth Cymhelliant/Hyblyg;** i fyfyrwyr sy'n astudio o leiaf 40 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg (150 o Ysgoloriaethau

Cymhelliant ar gael pob blwyddyn / £500 y flwyddyn neu £1,500 dros dair blynedd).

- **Ysgoloriaeth Meistr**; i fyfyrwyr sy'n bwriadu astudio cwrs sydd ag o leiaf 60 credyd wedi ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (10 ysgoloriaeth / £3,000 dros gyfnod o flwyddyn).
- **Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil**; hyd at 10 ysgoloriaeth yn cael eu hariannu ar y cyd â'r sefydliadau i fyfyrwyr sydd am astudio tuag at ddoethuriaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

4.3.16 Ym marn y Grŵp, mae ysgoloriaethau'r Coleg yn ffordd effeithiol ac ymarferol o annog darpar fyfyrwyr i barhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

4.3.17 Derbyniodd yr adolygiad beth tystiolaeth bod y Brif Ysgoloriaeth yn mynd, ar adegau, at fyfyrwyr a fyddai'n dewis astudio yn Gymraeg beth bynnag, heb fod angen cymhelliant ariannol arnynt. Er mwyn sicrhau gwerth am arian, mae'n bwysig bod yr ysgoloriaethau yn cael eu cyfeirio at y myfyrwyr hynny y mae arnynt angen cymhelliant i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, ac nid at y sawl a fyddai'n dewis gwneud hynny heb gymhelliant. Er nad yw'n bosib gwahaniaethu'n gyfan gwbl rhwng y naill grŵp a'r llall, dylai'r Coleg edrych eto ar sut mae'n targedu ysgoloriaethau.

4.3.18 Ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, nid yw'r Grŵp o'r farn bod y Brif Ysgoloriaeth yn cynnig y gwerth gorau am arian. Mae'n bur debygol bod disgyblion sy'n bwriadu astudio o leiaf 80 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg yn mynd i wneud hynny beth bynnag, heb gymhelliant ychwanegol. Os penderfynir cadw'r Brif Ysgoloriaeth, dylid gwneud mwy o ymgais i dargedu'r ysgoloriaeth yn fwy effeithiol.

4.3.19 Barn y Grŵp yw mai'r Ysgoloriaeth Cymhelliant sy'n cynnig y cyfle gorau i dargedu myfyrwyr na fyddai'n dewis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg oni bai am y cymhelliant ariannol a gynigir. Dylid parhau i dargedu'r Ysgoloriaethau yn bennaf at bynciau sy'n diwallu anghenion cyflogwyr er mwyn cryfhau'r cysylltiad rhwng yr iaith Gymraeg a'r economi, yn unol â blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru.

4.3.20 Mae'r Ysgoloriaethau Meistr, a ariennir ar y cyd gan y Coleg a'r sefydliadau unigol, yn ffordd effeithiol o gefnogi myfyrwyr i barhau gyda'u hastudiaethau ar lefel ôl-radd drwy gyfrwng y Gymraeg.

4.3.21 Mae'r Ysgoloriaethau Ymchwil yn fanteisiol nid yn unig i'r myfyrwyr unigol ond er mwyn cyfrannu at ysgolheictod yn yr iaith Gymraeg a datblygu'r genhedlaeth nesaf o ddarlithwyr mewn pynciau allweddol.

**Argymhelliad 8:** Dylai'r Coleg addasu'r cynllun ysgoloriaethau drwy:

- ystyried diddymu'r Brif Ysgoloriaeth ar sail gwerth am arian oherwydd y tebygrwydd nad oes angen cymhelliant ariannol ar fyfyrwyr sy'n dewis astudio o leiaf 80 credyd y flwyddyn trwy gyfrwng y Gymraeg;
- canolbwyntio ar ddatblygu'r cynllun Ysgoloriaethau Cymhelliant / Hyblyg er mwyn targedu'n fwy effeithiol y myfyrwyr hynny na fyddai'n dewis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg heb gymhelliant ariannol, a;
- sicrhau ysgoloriaethau ar gyfer pynciau sy'n diwallu anghenion cyflogwyr, er mwyn cryfhau'r cysylltiad rhwng yr iaith Gymraeg a'r economi yn unol â pholisi iaith Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 9:** Dylai'r Coleg barhau i gynnig Ysgoloriaethau Ymchwil oherwydd gwerth y cynllun i faes ymchwil cyfrwng Cymraeg, i ysgolheictod ac i gefnogi darlithwyr y dyfodol.

### **Y Dystysgrif Sgiliau Iaith**

4.3.22 Mae Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg yn ddull effeithiol o ddangos hyfedredd ieithyddol myfyrwyr er mwyn iddynt gael tystiolaeth o'u sgiliau wrth fynd i'r byd gwaith.

4.3.23 Mae lle i ddatblygu'r Dystysgrif Sgiliau Iaith ymhellach er mwyn ei gwneud yn fwy hygyrch i fwy o fyfyrwyr. Dylid ystyried cyflwyno gwahanol lefelau o gyrhaeddiad o fewn y Dystysgrif, a gwahaniaethu rhwng sgiliau llafar ac ysgrifenedig. Byddai hyn yn gwneud y Dystysgrif yn fwy hygyrch i fyfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg ond sy'n dewis astudio drwy gyfrwng y Saesneg, a hefyd i brentisiaid, a myfyrwyr sy'n astudio y tu allan i Gymru. Trwy ehangu'r Dystysgrif, bydd cyfle cynyddol i'w defnyddio mewn sefydliadau addysg uwch, sefydliadau addysg bellach, ac yn y gweithle.

**Argymhelliad 10:** Dylai'r Coleg ystyried sut y gall ddatblygu'r Dystysgrif Sgiliau Iaith trwy gyflwyno gwahanol lefelau o gyrhaeddiad, i'w gwneud yn fwy hygyrch i fwy o fyfyrwyr a phrentisiaid.

**Argymhelliad 11:** Dylid ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnig y Dystysgrif Sgiliau Iaith i fyfyrwyr sydd yn astudio y tu allan i Gymru, er mwyn iddynt gadw cysylltiad â'r iaith Gymraeg ac er mwyn tynnu sylw at gyfleoedd cyflogadwyedd/astudio pellach yng Nghymru (e.e. profiad gwaith, graddau Meistr).

## 4.4 Dangosyddion a thargedau

- 4.4.1 Yn Rhan 2: Targedau a Chyrhaeddiad, cafwyd crynodeb o dargedau'r Coleg a nifer y myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 5 credyd a 40 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 4.4.2 Derbyniodd y Grŵp dystiolaeth gymysg ynghylch y dangosyddion a ddefnyddir gan y Coleg. Cred rhai sefydliadau bod y mesur 5 credyd yn rhy isel i gynnig unrhyw brofiad sylweddol i fyfyrwyr o astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Awgrymwyd ei fod yn bosib cofnodi myfyrwyr o dan y mesur 5 credyd trwy ddarparu defnyddiau dwyieithog yn unig - heb ofyniad sylweddol i'r myfyriwr ddefnyddio'r iaith wrth ddysgu.
- 4.4.3 Ar y llaw arall, derbyniwyd tystiolaeth gref gan sefydliadau eraill bod y mesur 5 credyd yn galluogi myfyrwyr i dderbyn cyfran fach o'u cwrs trwy'r Gymraeg, a bod y profiad cychwynnol hwn yn gallu magu hyder myfyrwyr ac arwain at ddefnydd dyfnach o'r Gymraeg yn y pen draw.
- 4.4.4 Mae'r Grŵp yn argymhell bod y Coleg yn parhau i ddefnyddio'r ddau fesur (5 a 40 credyd). Maent yn cyd-fynd â'r targedau sydd ynghlwm â chytundeb cyllido'r Coleg. Dylai'r Coleg ystyried ffyrdd o annog sefydliadau i ddyfnhau'r profiadau a gynhigir dan y mesur 5 credyd.
- 4.4.5 Dylid parhau i gofnodi ac ystyried nifer y myfyrwyr sydd yn astudio 80 credyd y flwyddyn neu fwy drwy'r Gymraeg fel dangosydd o'r myfyrwyr y mae ganddynt sgiliau iaith Gymraeg dwfn.
- 4.4.6 Wrth edrych i'r dyfodol, dylid ystyried datblygu dangosydd ychwanegol ar sail nifer (a chanran) y disgyblion ysgol sy'n medru'r Gymraeg sy'n mynd ymlaen i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn eu haddysg uwch neu addysg bellach. Bydd dangosydd o'r fath yn ffordd fwy effeithiol o fesur llwyddiant y Coleg yng nghyd-destun y twf yn yr ysgolion Cymraeg a dwyieithog.
- 4.4.7 Un ffactor sydd y tu hwnt i reolaeth y Coleg (ond sy'n effeithio ar ei allu i gyrraedd ei dargedau) yw nifer y myfyrwyr sydd wedi derbyn addysg cyfrwng Cymraeg sydd yna'n dewis astudio mewn prifysgolion y tu allan i Gymru. Wrth edrych ar y niferoedd sydd yn ymgeisio i astudio mewn prifysgolion, mae nifer cynyddol o fyfyrwyr o Gymru yn dewis astudio yn Lloegr. Yn 2011 ymgeisiodd 33% o ddarpar fyfyrwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog am lefydd mewn prifysgolion yn Lloegr. Erbyn 2015 roedd y ganran wedi cynyddu i 42% o ddisgyblion o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.
- 4.4.8 Yn ychwanegol at hyn, ceir tystiolaeth mai'r myfyrwyr mwyaf galluog (canlyniadau ABB+ yn lefel A) sydd fwyaf tebygol o ddewis astudio yn Lloegr, gyda'r niferoedd yn cynyddu bob blwyddyn. Cyfeiriodd sawl

cyfrannwr at bolisi cyllido myfyrwyr Llywodraeth Cymru a Rhwydwaith Seren yn y cyd-destun hwn.

- 4.4.9 Mae'r tueddiadau uchod yn gwneud gwaith y Coleg yn fwy anodd wrth iddo ymdrechu i gynyddu'r niferoedd sydd yn astudio yn ein prifysgolion trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ystadegau hefyd yn galw am sylw pellach wrth ystyried anghenion ieithyddol Cymru, yn economaidd a chymdeithasol, yn y tymor hir.

**Argymhelliad 12:** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i osod targedau ar sail 5 a 40 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer y Coleg sydd yn adlewyrchu anghenion Strategaeth Iaith Gymraeg y Llywodraeth. Dylai'r Coleg barhau i gofnodi nifer y myfyrwyr sy'n cwblhau 80 credyd y flwyddyn.

**Argymhelliad 13:** Dylai'r Coleg drafod â'r sefydliadau unigol sut y gallant ddyfnhau'r profiadau a gynigir dan y dangosydd 5 credyd er mwyn sicrhau bod myfyrwyr sy'n cael eu cofnodi dan y mesur yn defnyddio'r Gymraeg i ryw raddau.

**Argymhelliad 14:** Dylai Llywodraeth Cymru a'r Coleg ddatblygu dangosydd ychwanegol ar sail y canran o ddisgyblion ysgol sy'n medru'r Gymraeg sydd yn mynd ymlaen i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg mewn addysg uwch neu addysg bellach.

## **4.5: Y berthynas rhwng y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a sefydliadau addysg uwch**

### **Sylwadau cyffredinol**

- 4.5.1 Mae perthynas y Coleg â'r sefydliadau addysg uwch yn un lwyddiannus ac effeithiol. Ers ei sefydlu, mae'r Coleg wedi datblygu ffordd o gydweithio â'r gwahanol sefydliadau sydd yn adeiladol ac yn ymateb yn dda i anghenion a blaenoriaethau gwahanol. Cafwyd canmoliaeth uchel o ansawdd ac ymroddiad staff y Coleg yn ystod yr adolygiad.
- 4.5.2 Wrth gynnig eu tystiolaeth, priodolodd pob un o'r sefydliadau addysg uwch y cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn eu sefydliad i waith y Coleg, gan ddweud yn bendant na fyddai'r cynnydd wedi digwydd oni bai am y gwaith hwn. Mae hyn yn dyst i'r berthynas adeiladol sydd wedi ei chreu rhwng y Coleg a'r sefydliadau.
- 4.5.3 Yr unig faes lle codwyd cwestiynau ynglŷn â'r berthynas rhwng y Coleg a'r sefydliadau unigol oedd yng nghyd-destun llywodraethiant y Coleg. Rhoddir sylw pellach i'r pwnc hwn yn Rhan 4.2 o'r adroddiad.
- 4.5.4 Wrth i'r Coleg ddatblygu ei rôl strategol genedlaethol yn y cyfnod i ddod, mae'n anochel y bydd ei berthynas â'r sefydliadau unigol yn newid i ryw



raddau. Bydd angen i'r Coleg weithio mewn ffordd fwy rhagweithiol wrth osod blaenoriaethau ac wrth wneud penderfyniadau strategol ynglŷn â'r gefnogaeth a roddir i wahanol feysydd a phynciau. Bydd angen i'r Coleg a'r sefydliadau unigol addasu i'r dull newydd hwn o weithio a sicrhau ar y ddwy ochr bod y berthynas lwyddiannus sydd wedi ei datblygu hyd yma yn parhau i'r dyfodol.

- 4.5.5 Bydd dyletswydd y Coleg i barhau i weithio mewn ffordd agored a thryloyw yn ganolog i'r berthynas hon, a hynny er mwyn sicrhau cefnogaeth y sefydliadau a meithrin hyder yn y broses cynllunio pynciol arfaethedig. Dylai'r Coleg sicrhau bod ei gynlluniau yn eglur ac yn cynnwys amserlen glir ar gyfer newidiadau sy'n effeithio ar y sefydliadau. Bydd dyletswydd gyfatebol ar y sefydliadau unigol i ddefnyddio'u hadnoddau eu hunain i gyfrannu at y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg er mwyn ychwanegu at yr hyn a gefnogir gan y Coleg.

### **Newid o'r Cynllun Staffio Academaidd i ariannu pynciol**

- 4.5.6 O'r flwyddyn ariannol bresennol ymlaen, mae'r Coleg yn gweithredu cynllun academaidd newydd. Mae'r model blaenorol o ariannu darlithwyr unigol drwy'r Cynllun Staffio Academaidd yn newid yn raddol i system gyllido sy'n seiliedig ar grantiau pynciol. Mae'r model cyllido newydd yn cynrychioli gwerth ychwanegol am arian trwy gynnig cymhelliant i sefydliadau wneud gwell ddefnydd o bob aelod o staff sy'n medru addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni fydd y newidiadau yn cael effaith lawn am rai blynyddoedd, tra bod y cynllun staffio yn dirwyn i ben a'r gyllideb yn trosglwyddo i'r model newydd.
- 4.5.7 Roedd y dystiolaeth, yn gyffredinol, yn croesawu'r newid yn y cynllun academaidd i system ariannu pynciol. Mae'n rhy gynnar i ragweld sut y bydd y newid i'r grantiau pynciol yn effeithio ar gyfanrwydd y ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg, ac yn benodol ar lefelau staffio o fewn sefydliadau unigol. Mynegwyd pryder ynglŷn â'r pwysau ariannol difrifol o fewn y sector addysg uwch a'r effaith ar swyddi ar draws adrannau. Yn y cyd-destun hwn, bydd angen i'r Coleg asesu effaith a llwyddiant y cynllun pynciol ar ôl tair blynedd.
- 4.5.8 Derbyniwyd tystiolaeth ynglŷn â'r angen am ddarparu cyrsiau trwy'r Gymraeg mewn sefydliad pan oedd darpariaeth eisoes ar gael mewn sefydliad arall. Codwyd cwestiynau ynglŷn â phwrpas dyblygu darpariaeth ar draws sefydliadau, ac effaith bosibl hyn ar y niferoedd o fyfyrwyr o fewn cyrsiau unigol.

- 4.5.9 Wrth ystyried cynaliadwyedd a gwerth am arian bydd angen i'r Coleg ystyried a yw'n gynaliadwy datblygu cyrsiau mewn lleoliadau ychwanegol os oes darpariaeth cyfrwng Cymraeg eisoes yn bodoli. Bydd rhaid derbyn bod yna bynciau blaenoriaeth lle na fydd niferoedd digonol i gynnal y ddarpariaeth mewn sawl lleoliad, ac efallai y bydd rhaid ystyried canoli'r ddarpariaeth yn yr achosion hyn.
- 4.5.10 Mae'n debyg y bydd canoli rhai pynciau mewn un neu ddau leoliad yn gwneud y cyrsiau hynny'n fwy cynaliadwy yn y tymor hir drwy ddenu niferoedd uwch o fyfyrwyr. Bydd hyn o fudd i'r sefydliadau.
- 4.5.11 Yn unol â Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru, ac er mwyn ymateb i anghenion cyflogwyr, dylai'r Coleg flaenoriaethu pynciau a meysydd lle mae galw gan gyflogwyr am sgiliau dwyieithog.

**Argymhelliad 15:** Dylai'r Coleg weithio'n fwy rhagweithiol wrth osod blaenoriaethau ac wrth wneud penderfyniadau strategol ynglŷn â'r gefnogaeth a roddir i wahanol bynciau.

**Argymhelliad 16:** Wrth ddatblygu'r cynllun grantiau pynciol, dylai'r Coleg:

- weithio mewn ffordd agored a thryloyw, er mwyn sicrhau cefnogaeth y sector a meithrin hyder yn y broses grantiau pynciol;
- sicrhau bod ei gynlluniau yn eglur ac yn cynnwys amserlen glir ar gyfer newidiadau sy'n effeithio ar y sefydliadau;
- monitro effaith y cynllun pynciol newydd yn ofalus a gwneud asesiad llawn o effaith a llwyddiant y cynllun ar ôl tair blynedd;
- wrth gynnig grantiau pynciol dylai'r Coleg ystyried y nifer o leoliadau sydd yn darparu cyrsiau o fewn yr un pwnc, a lleihau'r nifer os yn briodol i sicrhau cynaliadwyedd y ddarpariaeth, a ;
- sicrhau grantiau pynciol ar gyfer pynciau/meysydd lle mae galw gan gyflogwyr am sgiliau dwyieithog.

**Argymhelliad 17:** Dylai'r sefydliadau unigol wneud pob ymdrech i sicrhau gwerth gorau am arian trwy fuddsoddi cyllideb ac adnoddau eu hunain i gyfrannu at y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg er mwyn ychwanegu at yr hyn a gefnogir gan y Coleg.

## Canghennau

- 4.5.12 Y cysylltiad mwyaf gweledol sydd gan y Coleg â myfyrwyr yw ei ganghennau, sydd wedi eu lleoli o fewn y sefydliadau unigol. Mae yna wyth cangen bresennol, gan gynnwys dwy gangen sydd yn cynnwys sefydliadau addysg bellach.

- 4.5.13 Nodir bod y Coleg yn cynnal arolwg mewnol o weithgareddau'r canghennau fel rhan o'i gynllun strategol.
- 4.5.14 Derbyniwyd cefnogaeth i'r system ganghennau, er bod amrywiaeth eang o ran rôl a gweithgarwch canghennau o fewn strwythur y sefydliadau unigol. Cafwyd tystiolaeth bod rhai canghennau yn rhan greiddiol o strwythur y sefydliadau, tra bod eraill yn ymylol o ran eu cysylltiad gydag uwch swyddogion, ac yn gweithio ar lefel rhy isel i gael dylanwad strategol o fewn y sefydliad (er enghraifft, rhoi pwyslais ar drefnu cyfleoedd cymdeithasol i fyfyrwyr drwy gyfrwng y Gymraeg).
- 4.5.15 Mae'r canghennau yn rhan bwysig o waith y Coleg a dylid eu datblygu ymhellach yn y cyfnod nesaf. Ym marn y Grŵp mae'n bwysig bod y Coleg yn datblygu strwythur o weithgareddau craidd ar gyfer y canghennau sy'n ychwanegu gwerth gwirioneddol at waith y sefydliadau o ran hyrwyddo'r Gymraeg a chefnogi myfyrwyr. Wrth wneud hyn dylid sicrhau digon o hyblygrwydd o fewn y strwythur i ymateb i amodau gwahanol o fewn y sefydliadau.
- 4.5.16 Bydd angen i'r Coleg weithio'n agos â'r sefydliadau unigol er mwyn sicrhau bod pob cangen yn medru cynrychioli amcanion y Coleg yn effeithiol a chyfrannu ar lefel strategol i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y sefydliad.

**Argymhelliad 18:** Dylai'r Coleg ddatblygu a chysoni gweithgareddau craidd y canghennau a diogelu'r hyblygrwydd i ymateb i amodau'r sefydliadau unigol.

**Argymhelliad 19:** Dylai'r Coleg weithio'n agos â'r sefydliadau addysg uwch i sicrhau bod y canghennau yn cael mewnbwn a dylanwad digonol ar lefel strategol o fewn y sefydliadau.

## Rhan 5: Ymestyn cylch gwaith y Coleg i gynnwys y sector ôl-16

### Cefndir a thargedau

- 5.1 Yn wahanol i'r sector addysg uwch, ariennir y colegau addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Defnyddir y cytundebau ariannu gan y Llywodraeth i ddylanwadu ac annog y sefydliadau a chwmnïau hyfforddiant i ddatblygu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- 5.2 Cyhoeddwyd Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg<sup>3</sup> (SACC) Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2010. Roedd y Strategaeth yn cynnwys gweledigaeth ar gyfer twf parhaus addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ym mhob sector ac ystod oedran. Gosodwyd targedau ar gyfer twf o fewn y sector ôl-16 ac adroddir ar y cynnydd yn Adroddiad Blynyddol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.
- 5.3 Adroddwyd ar y targed hwn yn Adroddiad Blynyddol 2015/16 y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, fel a ganlyn:

**Tabl 4: Gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog y sector addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith o 2009/10 – 2014/15.**

Gweithgareddau	2009/10	2010/11*	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15**
Dysgu myfyrwyr yn ôl cyfrwng addysgu (LA26)	CC+D***	CC+D	CC+D	CC+D	CC+D	CC+D
Sefydliadau Addysg Bellach	6.2%	5.7%	6.7%	8.4%	8.5%	7.2%
Dysgu Seiliedig ar Waith	1.5%	3.0%	3.9%	3.6%	3.0%	6.7%

\*Cyn 2010/11, roedd data ar gyfer dysgu seiliedig ar waith wedi'i ddarparu gan sefydliadau addysg bellach, ac yn cael ei gategoreiddio o dan 'Sefydliadau addysg bellach'. Ers 2010/11 mae'r data yma wedi'i gategoreiddio o dan 'Dysgu seiliedig ar waith' ac felly gwelwyd gostyngiad yn y data i golegau.

\*\*Addaswyd diffiniad o addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ôl-16 yn y Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LA26), a daeth yn weithredol yn 2014/15. Bellach cofnodir y cyfrwng dysgu, a iaith yr asesiad ar gyfer pob unigolyn o hyn ymlaen, yn hytrach na'r dosbarth cyfan lle mae'r addysgu'n digwydd. O ganlyniad gwelwyd gostyngiad yn y data o 8.5% yn 2013/14 i 7.2% yn 2014/15.

\*\*\* CC = Cyfrwng Cymraeg, D = Dwyieithog

<sup>3</sup> <http://gov.wales/docs/dcells/publications/100420welshmediumstrategy.pdf>

- 5.4 Er mwyn cefnogi'r colegau addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith i gyrraedd y targedau, yn ystod y cyfnod a ddangosir yn Nhabl 3 ariannodd Llywodraeth Cymru Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd ym mhob sefydliad addysg bellach ac i gefnogi darparwyr dysgu seiliedig ar waith.
- 5.5 Yn ystod yr un cyfnod parhaodd Llywodraeth Cymru i gefnogi'r colegau addysg bellach gyda'r Lwfans Cyfrwng Cymraeg a roddir fel rhan o'u setliad referniw blynyddol, ynghyd â lwfans i'r sector dysgu seiliedig ar waith i gefnogi gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.
- 5.6 Yn ychwanegol, ariannwyd Sgiliaith gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ymarferol methodolegol i ddarlithwyr ac aseswyr i'w galluogi i ddarlithio a chefnogi eu myfyrwyr trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 5.7 O fewn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ar gyfer y pum mlynedd nesaf, *Symud Cymru Ymlaen*, ceir ymrwymiad i greu o leiaf 100,000 o brentisiaethau o safon uchel i bobl o bob oed. Disgwylir y bydd nifer fawr o'r prentisiaethau arfaethedig mewn sectorau blaenoriaeth o ran y Gymraeg. Bydd hyn yn rhoi pwysau cynyddol ar y sector dysgu seiliedig ar waith i gefnogi Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru.

## Canfyddiadau

- 5.8 Nid oes amheuaeth bod gan y sector ôl-16 rôl hanfodol i'w chwarae yn y gwaith o gyflawni nod Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr. Myfyrwyr o fewn y sector ôl-16 sydd fwyaf tebygol o barhau i fyw a gweithio yn eu cymunedau a defnyddio'r iaith mewn gweithfeydd a gwasanaethau lleol. Bydd sicrhau dilyniant iaith i'r bobl ifanc yma ar ôl iddynt adael ysgol yn allweddol.
- 5.9 Ychydig iawn o gynnydd a welwyd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y colegau addysg bellach dros y pum mlynedd diwethaf (gweler Tabl 4), gyda rhywfaint yn fwy o gynnydd ymysg darparwyr dysgu seiliedig ar waith (o bwynt cychwynnol tipyn yn is). Bydd angen sicrhau cynnydd llawer mwy yn y dyfodol os yw'r Llywodraeth am gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr.
- 5.10 Derbyniodd y Grŵp dystiolaeth glir gan y sector addysg bellach a'r sector dysgu seiliedig ar waith bod angen arweiniad strategol ar lefel genedlaethol er mwyn ymestyn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y gwahanol sefydliadau. Er bod Colegau Cymru, y corff sy'n cynrychioli'r sector, yn cefnogi'r colegau i ymestyn eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTFW) yn cefnogi'r sector

dysgu seiliedig ar waith, gydag adnoddau'n brin, mae gallu'r ddau gorff i wneud gwahaniaeth sylweddol yn gyfyng.

5.11 Derbyniodd y Grŵp lawer o dystiolaeth oedd yn pwysleisio'r gwahaniaeth rhwng y sectorau addysg uwch ac addysg bellach, o ran yr ystod o bynciau, sgiliau myfyrwyr, ac amgylchedd dysgu. O fewn y sector ôl-16 mae'r ddarpariaeth yn cynnwys:

- Cyrsiau academaidd/safon uwch
- Rhaglenni galwedigaethol yn amrywio o Lefel 1 i Lefel 4 a 5
- Cymhwyster Bagloriaeth Cymru
- Cymorth rhifedd a llythrennedd gan gynnwys ailsefyll TGAU
- Rhaglenni sgiliau byw'n annibynnol
- Rhaglenni ymgysylltu/hyfforddeiaethau
- Rhaglenni dysgu seiliedig ar waith, yn seiliedig ar anghenion cyflogwr
- Ystod eang o gyrsiau byr i gyflogwyr
- Sgiliau sylfaenol i oedolion.

5.12 Mae llawer o waith y sector yn cymryd lle y tu allan i'r dosbarth mewn gweithleoedd amrywiol. Darperir cyrsiau gan hyfforddwyr a gweithwyr technegol, yn ogystal â darlithwyr. Mae'r ffactorau hyn, ynghyd â'r amrywiaeth eang o gyrsiau, yn ychwanegu at yr her o ddarparu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg.

5.13 Ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daeth yn glir i'r Grŵp na fyddai strategaeth gyfredol y Coleg ar gyfer y sector addysg uwch yn trosglwyddo'n effeithiol i'r sector ôl-16. Oherwydd cymhlethdodau'r sector, nid oes un ateb syml i'r cwestiwn o sut i wella'r ddarpariaeth, nac un model o weithredu a fydd yn cael yr effaith angenrheidiol. Bydd angen gweithredu ar sawl lefel ac yn ôl anghenion amrywiol y sefydliadau unigol, gan adeiladau ar y gwaith da sydd eisoes yn digwydd mewn nifer o sefydliadau.

5.14 Ystyriodd y Grŵp gryfderau a gwendidau'r Coleg o ran ymestyn ei gyfrifoldebau i'r sector ôl-16, ynghyd ag opsiynau eraill ar gyfer cynnig arweiniad strategol i'r sector, gan gynnwys ymyriad uniongyrchol pellach gan Lywodraeth Cymru, arweiniad gan gorff allanol arall, neu greu corff newydd ar gyfer y sector.

5.15 Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth, daeth y Grŵp i'r casgliad mai'r Coleg Cymraeg fyddai'r corff mwyaf addas i ymgymryd â'r gwaith o ddatblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y sector ôl-16. Y prif ffactorau o blaid ymestyn cylch gorchwyl y Coleg oedd:

- Tystiolaeth o gyflawni effeithiol yn y sector addysg uwch

- Arbenigedd staff mewn cynllunio, monitro, a gweithio mewn partneriaeth
- Cysylltiadau eisoes yn bodoli gyda'r sector ôl-16
- Profiad o weithio mewn ysgolion i hyrwyddo'r Gymraeg
- Llyfrgell adnoddau a llwyfan e-ddysgu
- Gwerth am arian – strwythur gweithredol mewn lle
- Cadeirydd newydd sydd â chefnidir yn y sector ôl-16

- 5.16 Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes gan y Coleg yr arbenigedd angenrheidiol ar lefel gweithredol i ymgymryd yn llawn â'r gwaith o gynllunio ar gyfer y sector ôl-16. Mae'r Coleg ei hun yn ymwybodol o'r diffyg hwn.
- 5.17 Er mwyn sicrhau bod yr arbenigedd angenrheidiol ar gael i'r Coleg, mae'r Grŵp yn argymhell bod y Coleg yn sefydlu bwrdd cynllunio ôl-16 sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r colegau addysg bellach, y sector dysgu seiliedig ar waith a Llywodraeth Cymru.
- 5.18 Dylai'r Bwrdd Cynllunio, dan adain y Coleg, arwain y gwaith o baratoi cynllun cychwynnol ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth cyfwng Cymraeg o fewn y colegau addysg bellach a'r sector dysgu seiliedig ar waith, gan adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes yn digwydd o fewn y sectorau er mwyn sicrhau cynnydd.
- 5.19 Er mwyn cefnogi gwaith y Bwrdd Cynllunio Ôl-16, dylai'r Coleg greu uned gynllunio ôl-16 tu fewn i strwythur presennol y Coleg i ymchwilio, casglu data a gweithredu'r cynllun cychwynnol.
- 5.20 Mae'r Grŵp yn argymhell y dylid canolbwyntio ar dri gweithgaredd penodol: cefnogi staff presennol y colegau a darparwyr hyfforddiant i ddatblygu eu sgiliau er mwyn gallu dysgu'n ddwyieithog; datblygu adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg i gefnogi'r dysgu; a hyrwyddo'r cyfleoedd a'r manteision i ddysgwyr ym meysydd blaenoriaeth y Llywodraeth.
- 5.21 Derbyniwyd llawer o dystiolaeth oedd yn nodi'r diffyg cymwysterau ac adnoddau asesu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n glir bod prinder difrifol o aseswyr sydd yn medru asesu trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys prinder mewn gwirwyr ansawdd mewnol (IQAs), a phrinder aseswyr allanol o fewn y cyrff dyfarnu sy'n medru gweithio'n hyderus trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae datblygu'r isadeiledd hwn yn hanfodol os yw'r ddarpariaeth i ddatblygu.
- 5.22 Gyda llwyfan adnoddau ac e-ddysgu'r Coleg Cymraeg, Y Porth, eisoes yn bodoli a'r Coleg yn cynhyrchu a rhannu adnoddau yn y sector addysg uwch, mae'r Coleg mewn sefyllfa dda i ddechrau ar y gwaith o gefnogi datblygu adnoddau i'r sector ôl-16 ar unwaith.

5.23 Bydd disgwyl i'r ystod o hyfforddiant sydd eisoes yn cael ei gyflawni gan Sgiliaith, ynghyd â chefnogaeth Colegau Cymru, gyfrannu at y broses gynllunio a bydd angen i'r Coleg weithio'n agos gyda Sgiliaith er mwyn datblygu cynlluniau pwrpasol i gefnogi sgiliau staff presennol y sefydliadau.

5.24 Bydd disgwyl i'r Coleg weithio'n agos gyda Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru er mwyn datblygu adnoddau a staff sydd yn gallu asesu drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn y sector dysgu seiliedig ar waith, ac i sicrhau bod y sector ôl-16 yn ei gyfanrwydd yn cael ei gefnogi.

5.25 Dylai'r Coleg gytuno â'r Llywodraeth ar fesuryddion cyraeddadwy i fesur llwyddiant o fewn y sector.

**Argymhelliad 20:** Dylid ymestyn cylch gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynnwys y sector ôl-16.

**Argymhelliad 21:** I ddatblygu'r gweithgaredd o fewn y sector ôl-16 dylai'r Coleg:

- sefydlu bwrdd cynllunio arbenigol dan adain y Coleg, yn cynnwys cynrychiolaeth o'r colegau addysg bellach, y sector dysgu seiliedig ar waith a Llywodraeth Cymru, i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y sector ôl-16;
- dylai'r bwrdd cynllunio flaenoriaethu tri maes penodol; cefnogi staff presennol y colegau a darparwyr hyfforddiant i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg er mwyn dysgu'n ddwyieithog, datblygu adnoddau dysgu Cyfrwng Cymraeg, a hyrwyddo'r cyfleoedd a'r manteision i ddysgwyr ym meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, a;
- creu uned gynllunio ôl-16 i gefnogi gwaith y Bwrdd Cynllunio ac i ymateb i'r cyfrifoldebau newydd.

**Argymhelliad 22:** Mewn partneriaeth, dylai Llywodraeth Cymru, y Coleg a rhanddeiliaid eraill ystyried sut i ddatblygu gallu'r sector galwedigaethol i asesu trwy gyfrwng y Gymraeg, yn fewnol o fewn sefydliadau, ac yn allanol gan y cyrff dyfarnu.



## Rhan 6: Cyllido'r Coleg

### Sylwadau cyffredinol

- 6.1 Mae cyllideb y Coleg ers ei sefydlu i'w weld yn Nhabl 1 (Tudalen 10). Gwelwyd gostyngiad yng nghyllideb y Coleg, o £8.1m yn 2015/16 i £5.8m yn 2016/17; nid yw'r gostyngiad yma i'w weld wedi cael effaith negyddol ar y deilliannau.
- 6.2 Cafwyd peth tystiolaeth bod costau staffio a gwariant canolog y Coleg yn hael, yn enwedig yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol heriol ar draws y sector addysg uwch. Ond ni chafwyd tystiolaeth nad oedd y gwariant yn ei gyfanrwydd wedi bod yn llwyddiannus ac yn effeithiol.
- 6.3 Roedd y dystiolaeth a dderbyniwyd gan y sefydliadau addysg uwch yn gadarn ynglŷn â phwysigrwydd y buddsoddiad a wnaed gan y Coleg i ddatblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y sefydliadau. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cynnal y buddsoddiad at y dyfodol, a mynegwyd pryder y byddai ymestyn cylch gorchwyl y Coleg i'r sector ôl-16 yn arwain at leihad yn y gyllideb sydd ar gael i gefnogi'r sector addysg uwch. Heb barhad yn y buddsoddiad presennol, roedd y sefydliadau'n glir yn eu barn na fyddai'r cynnydd pwysig a wnaed hyd yma yn gynaliadwy.
- 6.4 Ymysg y sector ôl-16, roedd cytundeb am yr angen i wneud llawer mwy i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y colegau ac yn y sector dysgu seiliedig ar waith. Byddai angen buddsoddiad ychwanegol er mwyn sicrhau'r cynnydd oedd ei angen. Roedd y colegau yn un o'r farn y dylai'r Lwfans Cyfrwng Cymraeg, sydd yn rhan o'r setliad ariannol blynyddol presennol, barhau mewn lle ac y dylai unrhyw fuddsoddiad newydd fod yn ychwanegol i'r Lwfans.

### Gwerth am arian a chynaliadwyedd

- 6.5 Nid oedd yn bosib i'r Grŵp ymchwilio'n fanwl i bob agwedd ar wariant y Coleg, nac i ddadansoddi pob buddsoddiad unigol. Ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daeth y Grŵp i'r casgliadau canlynol ynglŷn â chyllido'r Coleg:
- 6.6 Mae mwyafrif sylweddol o gyllideb y Coleg yn fuddsoddiad uniongyrchol i ddatblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg uwch. Yn gyffredinol, mae'r gweithgareddau a ariennir gan y Coleg yn effeithiol ac yn cyflawni eu hamcanion. Mae'r costau canolog fel canran o gyllideb y Coleg yn rhesymol, ac yn adlewyrchu costau o fewn sefydliadau tebyg.

- 6.7 Bydd angen cynnal y buddsoddiad o fewn addysg uwch er mwyn cynnal y twf yn y ddarpariaeth a welwyd eisoes. Ni fydd y cynnydd yn gynaliadwy heb barhad yn y buddsoddiad hwn. Mae'r Grŵp yn cyd-fynd ag argymhelliad Diamond (gweler tudalen 7) bod angen model cyllido cynaliadwy at y dyfodol.
- 6.8 Mae cynllun academiaidd newydd y Coleg yn cynnig cyfleoedd i sicrhau gwell gwerth am arian gan ysgogi'r sefydliadau i gyfrannu mwy o'u hadnoddau eu hunain at ymestyn y ddarpariaeth o fewn ac ar draws adrannau, yn lle dibynnu ar ddarlithwyr unigol a ariannwyd gan y Coleg.
- 6.9 Os bydd rôl y Coleg yn ymestyn i'r sector ôl-16, mae lle o fewn cyllideb a gweithgareddau canolog y Coleg i wneud arbedion ac i ailgyfeirio ei waith a'i ffocws i raddau helaeth. Nid yw'r Grŵp yn gweld bod angen cynnydd arwyddocaol yn lefel y staff canolog i ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol.
- 6.10 Bydd angen cyllideb ychwanegol i gefnogi twf yn y ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg yn y sectorau addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith ar lefel sefydliadol. Bydd maint y buddsoddiad yn ddibynnol ar gytundeb rhwng y Coleg a Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r gweithgareddau a flaenoriaethir yn dilyn cyfnod o gynllunio.

### **Cyllido'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol at y dyfodol**

- 6.11 Ystyriodd y Grŵp ddull cyllido'r Coleg yng nghyd-destun adroddiad Hazelkorn (gweler tudalen 7) a bwriad Llywodraeth Cymru i sefydlu un awdurdod rheoleiddio, goruchwyllo a chydgysylltu i'r sector ôl-orfodol yng Nghymru.
- 6.12 Nid yw'n rhesymol i'r Grŵp wneud argymhelliad manwl ynglŷn â pherthynas y Coleg ag unrhyw awdurdod newydd tra bod y datblygiadau yma o dan ystyriaeth. Wrth reswm bydd yn rhaid i'r Coleg weithio'n agos gydag unrhyw gorff newydd ar gyfer y sector, ond bydd union natur y berthynas yn dibynnu ar nifer o ffactorau sydd eto i'w penderfynu.
- 6.13 Derbyniodd y Grŵp dystiolaeth amrywiol ynglŷn â'r angen am berthynas hyd braich rhwng Llywodraeth Cymru a'r Coleg. Tra bod rhai sefydliadau ac unigolion yn credu bod angen sefydlu perthynas hyd braich er mwyn diogelu annibyniaeth y Coleg, credai eraill bod perthynas uniongyrchol rhwng y Llywodraeth a'r Coleg yn fanteisiol oherwydd pwysigrwydd strategol y Coleg o ran cyflawni Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru yn y cyfnod tyngedfennol nesaf.

- 6.14 Oherwydd y newidiadau sydd dan ystyriaeth yn dilyn adroddiad Hazelkorn, ynghyd â'r angen am gydweithio agos rhwng Llywodraeth Cymru a'r Coleg i weithredu'r Strategaeth Iaith, mae'r Grŵp yn argymhell y dylai dull cyllido'r Coleg barhau fel y mae ar hyn o bryd trwy gytundeb blyneddol uniongyrchol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Coleg. Dylai'r gyfundrefn hon barhau hyd at sefydlu'r corff newydd ar gyfer y sector ôl-orfodol.
- 6.15 Pan fydd cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r corff newydd yn fwy eglur, mae'r Grŵp yn argymhell y dylid edrych eto ar y dull o gyllido'r Coleg, ac ystyried (er enghraifft) a ddylid gwneud cyllido'r Coleg yn rhan o gyfrifoldebau'r corff newydd.
- 6.16 Wrth gynllunio corff newydd ar gyfer y sector ôl-orfodol, bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried rôl y cyrff eraill sydd yn gwasanaethu'r sector. Mae'r Coleg eisoes yn cydweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, sy'n gyfrifol am ddatblygu Cymraeg i Oedolion. Mae lle i gydlynu gwaith y Ganolfan a'r Coleg ymhellach, a bydd angen ystyried y ffordd orau o sicrhau effeithlonrwydd a gwerth am arian ar draws y sector ôl-orfodol cyfrwng Cymraeg yng nghyd-destun datblygiadau eraill.

**Argymhelliad 23:** Dylai'r Coleg ystyried pob cyfle i adolygu costau, yn enwedig costau canolog i sicrhau gwerth am arian.

**Argymhelliad 24:** Dylai'r Coleg barhau i gael ei ariannu yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Dylid ailystyried yr opsiynau cyllido o fewn pedair blynedd wrth i swyddogaeth a chyfrifoldebau'r corff newydd ôl-orfodol ddod yn fwy eglur.

**Argymhelliad 25:** Dylai'r Coleg drafod gyda Llywodraeth Cymru yr angen am unrhyw gyllid ychwanegol i ymateb i'w gyfrifoldebau newydd. Dylai hyn fod yn seiliedig ar gynllun gweithredu, ond ni welir angen am gynnydd yn y costau canolog yn y tymor byr.

## Rhan 7: Rôl y Coleg mewn perthynas â datblygiadau polisi diweddar

- 7.1 Wrth ymgymryd â'r adolygiad, rhoddwyd sylw cyson i rôl y Coleg wrth gefnogi amcanion polisiâu Llywodraeth Cymru. Nid yw'r Coleg yn gweithredu mewn gwacter, ac mae mewn sefyllfa i ymateb a dylanwadu ar bolisiau addysg, addysg uwch, sgiliau a'r economi, a'r Gymraeg i enwi dim ond rhai.
  - 7.2 Mewn ymateb i adroddiad yr Athro Diamond o drefniadau cyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr; mae'r Grŵp yn cyd-fynd ag argymhelliad Diamond bod angen cyllido cynaliadwy a buddsoddiad blynyddol at y dyfodol i gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg o fewn addysg uwch.
  - 7.3 Wrth ystyried polisi iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru a'r amcan i weithio tuag at un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, bydd gwaith a dylanwad y Coleg o fewn addysg uwch yn allweddol er mwyn cynnal a datblygu'r dilyniant o addysg statudol. Os derbynnir argymhelliad y Grŵp i ehangu cyfrifoldebau'r Coleg i'r sector ôl-16, bydd cyfraniad y Coleg i'r gwaith o ddatblygu gweithlu'r dyfodol yn allweddol o ran y colegau addysg bellach a'r sector dysgu seiliedig ar waith.
  - 7.4 Bydd argymhellion adroddiad yr Athro Hazelkorn '*Tuag at 2030 - Fframwaith ar gyfer Datblygu System Addysg ôl-orfodol o'r Radd Flaenaf i Gymru,*' yn destun ymgynghoriad pellach gan y Llywodraeth. Wrth ystyried hyn, nid yw'r rhesymol i'r Grŵp wneud argymhelliad manwl ynglŷn â pherthynas y Coleg ag unrhyw awdurdod newydd tra bod y datblygiadau hyn o dan ystyriaeth. Bydd angen ailymweld â pherthynas y Coleg â'r corff newydd ôl-orfodol wrth i'w gyfrifoldebau ddod yn fwy eglur.
  - 7.5 Wrth edrych i'r dyfodol, mae'r Coleg mewn sefyllfa i gyfrannu yn bositif at ddatblygu a gweithredu ystod eang o bolisiau'r Llywodraeth. Bydd yn un o'r sefydliadau allweddol wrth i'r Llywodraeth ymgymryd â'r gwaith o wireddu amcanion Strategaeth y Gymraeg. Mae'n amserol felly bod y Coleg yn datblygu ei rôl a'i gyrhaeddiad i fod yn gorff strategol cenedlaethol cydnabyddedig ar gyfer datblygu'r Gymraeg ar draws y sectorau addysg uwch, addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith.
-

## Atodiad 1: Cylch Gorchwyl y Grŵp

Roedd gofyn i'r grŵp gorchwyl a gorffen ystyried y canlynol

- A yw model a strwythur presennol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn briodol ac yn addas at y diben o hyrwyddo a datblygu darpariaeth cyfrwng-Cymraeg addysg uwch o 2017 ymlaen. Os nad yw, dylid diffinio rôl, gweithgareddau a strwythur y Coleg (neu endid arall) i'r dyfodol, gan roi ystyriaeth lawn i werth am arian a chynladwyedd.
- Yr opsiynau i'r dyfodol ar gyfer cyllido'r Coleg.
- Cynladwyedd y berthynas rhwng y Coleg a sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.
- A ddylai cylch gwaith y Coleg ymestyn i gynnwys y sector ôl -16 (addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith), ac os dylid, cynnig opsiynau posib ar sut i symud ymlaen gyda hyn.
- Rôl y Coleg mewn ymateb i argymhellion adolygiad Diamond a datblygiadau polisi diweddar eraill.

## **Atodiad 2: Aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen**

- Delyth Evans, aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru rhwng 2000 a 2003 – Cadeirydd
- Barry Liles, Prifathro Coleg Sir Gâr
- Heledd Bebb, cyn ddarlithydd gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a bellach yn Gyfarwyddwr gyda chwmni Ymchwil OB3
- Bethan Guilfoyle, cyn brifathrawes Ysgol Gyfun Treorci
- Rhun Dafydd, wedi ei enwebu fel cynrychiolydd myfyrwyr gan UCM Cymru
- Yr Athro Mari Lloyd-Williams, darlithydd ym Mhrifysgol Lerpwl
- Yr Athro Noel Lloyd, cyn Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth.

### Atodiad 3: Sefydliadau a gyflwynodd dystiolaeth ar lafar

	Sefydliad	Enw	Teitl	Dyddiad
1	Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Andrew Green Ioan Matthews Dafydd Trystan Catherine Rees Dylan Philips Gwennan Schiavone	Cadeirydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol Prif Weithredwr Cofrestrydd ac Uwch Reolwr Academaidd Uwch Reolwr Materion Corfforaethol Uwch Reolwr Academaidd Uwch Reolwr Academaidd	25 Tachwedd 2016
2	Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru	Celia Hunt Dr Cliona O'Neill	Cyfarwyddwr Datblygu Strategol Pennaeth Profiad Myfyrwyr	13 Ionawr 2017
3	Llywodraeth Cymru	Bethan Webb	Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-Adran y Gymraeg	13 Ionawr 2017
4	Undeb Myfyrwyr Cenedlaethol Cymru	Fflur Elin Ifan James	Cyfarwyddwr UMC Cymru Swyddog yr iaith Gymraeg	13 Ionawr 2017
5	Prifysgol Aberystwyth	Rhodri Llwyd Morgan Mari Elin Jones Elin Royles	Dirprwy Is-Ganghellor Rheolwr Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg Cadeirydd Cangen y Brifysgol o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol	6 Chwefror 2017
6	Prifysgol De Cymru	Gwawr Jones  William Callaway	Pennaeth yr Uned Gymraeg a Swyddog Iaith Gymraeg Ysgrifennydd y Brifysgol a Chlerc y Llywodraethwyr	6 Chwefror 2017
7	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	Gwilym Dyfri Jones	Dirprwy Is-ganghellor Cysylltiol	6 Chwefror 2017
8	Prifysgol Bangor	Jerry Hunter Llion Jones	Athro a Dirprwy Is-Ganghellor Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr	7 Mawrth 2017
9	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Meilyr Emrys Alaw Griffiths	Swyddog Iaith Gymraeg Swyddog Iaith Gymraeg	7 Mawrth 2017
10	Llywodraeth Cymru	Awen Penri Branwen Thomas	Pennaeth Cangen Datblygu'r Gymraeg mewn Addysg Uwch Swyddog ôl-16, Cangen Datblygu'r Gymraeg mewn Addysg	7 Mawrth 2017
11	Colegau Cymru	Claire Roberts	Cyfarwyddwr Ymgysylltu	7 Mawrth 2017

12	Coleg Cambria	Llinos Roberts	Rheolwr Cyfathrebu a Dwyieithrwydd	7 Mawrth 2017
13	Cymdeithas yr Iaith	Sel Williams  Ffred Ffransis Colin Nosworthy Mirain Llwyd Roberts	Aelod o Grŵp Addysg y Gymdeithas gyda chyfrifoldeb dros ymgyrch y Coleg Cymraeg Aelod o'r Grŵp Addysg Swyddog Cyfathrebu a Chyswllt y Cynulliad Cadeirydd Cell Myfyrwyr Bangor Cymdeithas yr Iaith	11 Ebrill 2017
14	Coleg Gwyr Abertawe	Anna Davies	Hyrwyddwr Dwyieithrwydd	11 Ebrill 2017
15	Coleg Caerdydd a'r Fro	Kay Martin	Pennaeth Coleg Caerdydd a'r Fro	11 Ebrill 2017
16	Coleg Llandrillo Menai	Linda Wyn	Pennaeth Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor	11 Ebrill 2017
17	Llywodraeth Cymru	Richard Evans	Uwch Swyddog Sgiliau, Is-Adran y Gymraeg	25 Ebrill 2017
18	Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru	Jeff Protheroe Ryan Evans	Rheolwr Gweithrediadau Hyrwyddwr Dwyieithrwydd	25 Ebrill 2017
19	Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Haydn Edwards  Ioan Matthews Dafydd Trystan	Cadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg (1 Ebrill 2017 ymlaen ) Prif Weithredwr Cofrestrwydd ac Uwch Reolwr Academaidd	25 Ebrill 2017



## Atodiad 4: Ymatebion ysgrifenedig a dderbyniwyd

	<b>Enw neu Sefydliad</b>
1	Coleg Cymraeg Cenedlaethol
2	Cymdeithas yr Iaith
3	Coleg Sir Gâr
4	Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
5	Undeb Myfyrwyr Cenedlaethol Cymru
6	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
7	Coleg Gwent
8	Comisiynydd y Gymraeg
9	Prifysgol Metropolitan Caerdydd
10	Iwan Thomas
11	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
12	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
13	Cyngor Gofal Cymru
14	Catrin Williams
15	Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
16	Sian Morgan Lloyd a Manon Edwards Ahir
17	Prifysgol Caerdydd
18	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
19	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
20	Dyfodol i'r Iaith
21	Prifysgol Abertawe
22	Prifysgol Bangor
23	Grŵp Llandrillo Menai
24	Colegau Cymru
25	Merfyn Morgan
26	Prifysgol De Cymru
27	Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
28	Y Brifysgol Agored
29	Coleg Caerdydd a'r Fro
30	John O'Shea – Y Coleg Merthyr Tydfil (Clip fidio)